FCN | THE FARMING COMMUNITY NETWORK CYMRU

FCN

Crynodeb o'r swydd

Swydd: **Rheolwr Partneriaethau (Cymru)**

(gan gynnwys cyfrifoldebau Arweinydd Rhanbarthol)

Lleoliad: Gweithio gartref gyda disgwyliad y bydd rhaid teithio a gweithio'n hyblyg

Oriau: Rhan-amser (tua 17.5 awr yr wythnos) (angen hyblygrwydd)

Contract: Contract cyfnod penodol am flwyddyn (adnewyddadwy)

Yn atebol i'r: Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad Paratoi: Gorffennaf 2021

Rydym yn recriwtio **Rheolwr Partneriaethau (Cymru)** i adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol. Byddwch yn aelod o uwch-dîm rheoli FCN yn ei swyddfa genedlaethol, gan arwain ar bartneriaethau yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys meithrin partneriaethau gyda mudiadau a chefnogi staff a gwirfoddolwyr FCN.

Bydd gennych hefyd **gyfrifoldebau Arweinydd Rhanbarthol** gan helpu i sefydlu, datblygu a chefnogi grwpiau gwirfoddolwyr lleol sy'n hyfyw ac yn gynaliadwy. Bydd eich rôl yn cynnwys cefnogi grwpiau gwirfoddolwyr FCN yn ogystal â darparu model o arfer gorau y gellir ei rannu'n ehangach â staff FCN ac Arweinwyr Rhanbarthol eraill.

Prif Dasgau:

- Parhau i feithrin partneriaethau gyda'r llywodraeth, sefydliadau a chorfforaethau eraill, yn ogystal â'r sectorau cymunedol a gwirfoddol, gan adeiladu ar gysylltiadau presennol a chreu rhai newydd.
- Creu a meithrin perthynas gyda'n cefnogwyr a'n sefydliadau partner.
- Datblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru.
- Cefnogi gweithgareddau allgymorth a gweithgareddau codi arian gwirfoddolwyr FCN a rhanddeiliaid eraill.
- Cefnogi, cymell ac ysbrydoli grwpiau gwirfoddolwyr yn eich rhanbarth a helpu i ddatblygu enw da FCN ledled yr ardal.

I gael copi o'r disgrifiad swydd cyflawn, gan gynnwys y meini prawf hanfodol, anfonwch e-bost at mark@fcn.org.uk

I wneud cais am y swydd hon, anfonwch CV a llythyr mynegi diddordeb yn nodi sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf **erbyn 30 Awst**.